

ATGOFION  
AMSER  
RHYFEL



*Eirlys Owen*



*Nest Davies*



*Marjorie Hughes*



*Trefor Lewis*



*Morfudd Rhys Clark*

## *Cynnwys*

	<i>Tud.</i>
Rhagair	3
Gyda'r Cynrhon a'r Gwiddon: atgofion Nest Davies	5
Llundain a Llanfihangel-y-Creuddyn: atgofion Marjorie Hughes	11
Blondie wrth y <i>Spark Plugs</i> : atgofion Eirlys Owen	17
Bletchley Park a La Paz: atgofion Morfudd Rhys Clark	25
O Ynys Tiree i Ynys Thorney: atgofion Trefor Lewis	31

## ***Rhagair***

*“Dwyn mae cof o flaen fy llygaid ...”*

Mae'r cof yn gynneddf ryfeddol. Medr atgof fod yn wefreiddiol pan fo'r gallu ymhlyg ynddo i gyfathrebu profiad ac emosiwn i rywun arall. Drwy hyn ceir trysorau i'w cadw o genhedlaeth i genhedlaeth a'u trosglwyddo'n rhan o'n hetifeddiaeth. Ond yn rhy aml ni fanteisir ar y cyfle i sicrhau ein bod yn rhoi'r profiadau hyn ar gof a chadw ... ac yna maent wedi'u colli am byth.

Diolch am y syniad a eginodd yn dilyn sgwrs dros baned wedi oedfa fore Sul yng nghyfnod dathlu cadoediad yr Ail Ryfel Byd, drigain mlynedd ynghynt. Gwerthfawrogir i bedair boneddiges sydd â chysylltiadau mebyd â'r ardal ac â Chapel y Garn, neu sydd wedi ymgartrefu yma, rannu eu profiadau am y cyfnod hwnnw mewn cyfarfod o Gymdeithas Lenyddol y Capel ym mis Tachwedd 2006. Bu iddynt gydsynio i ni gyhoeddi eu cyfraniadau gan ychwanegu atgofion un o feibion y fro atynt.

Drwy lygaid a phrofiadau y pum cyfrannwr cawn olwg ar ddyddiau'r rhyfel a newidiodd drefn y byd. Nid yn unig maent yn rhannu eu hanes personol ond maent hefyd yn datgelu hanes cymdeithasol y cyfnod chwyldroadol hwnnw, cyfnod a gyffyrddodd â phob teulu. I rai bu'r aberth yn aruthrol fawr, fel y tystia'r goflech ar fur y capel – y cyfan i ddiogelu rhyddid y cenedlaethau i ddod. Hawdd i'r cenedlaethau hynny anghofio, yn arbennig pan fo'r to fu'n aberthu yn prinhaus. Felly, daw cof y rhai a brofodd, drwy iddynt rannu eu hatgofion, yn ernes i ninnau ddeall a gwerthfawrogi'r hyn a aeth o'n blaen ac a osododd sylfaen ein cymdeithas a'n cenedl heddiw.

Cawn hanes bomiau yn y Dolau ac yn Llundain, bywyd yr ardal hon – y dogni, y *blackouts*, trin y tir – a'r diwydiant llaeth yn Llundain, y parodwydd i gydymffurfio â'r alwad i wasanaethu

ymgyfarwyddo â threfn wahanol o fyw, cilio o Lundain fel *evacuee*, y cymdeithasu a'r profiadau newydd ... hyn oll o Tíree i La Paz. Mae arddulliau ac ieithwedd y cyfraniadau yn goeth a byw.

Fy apêl fyddai i bob un ohonom roi ar glawr ein profiadau personol a'n hanes teuluol. Ni ddylid dibrisio pwysigrwydd cadw'r cofnodion hyn er pa mor ddinod a chyffredin yr ystyriwn hwy. Gallant agor llygaid a goleuo ymwybyddiaeth cenedlaethau'r dyfodol am gyfnodau hynod ein cymdeithas, ein diwylliant a'n cenedl.

Gwn y cewch fodd i fyw wrth ddarllen yr atgofion hyn.

*Dewi G Hughes*  
*Chwefror 2007*

## ***Gyda'r Cynrhon a'r Gwiddon***

*Atgofion Nest Davies*

Bore Sul, Medi 3ydd 1939, a minnau'n eistedd ar y fainc fach wrth y tân yn edrych ymlaen at ginio dydd Sul tra'n mwynhau yn fawr iawn y ffotograffwaith gwych yn y *Picture Post*.

Yna, yn ddirybudd, dyma lais mawr Neville Chamberlain ar y *wireless* yn cyhoeddi: '*Today, Hitler has invaded Poland. Therefore, we are at war with Germany.*' Geiriau tyngedfennol iawn yn ymwneud â ni i gyd, fel y cofiwn.

Rown i yn un ar bymtheg oed ar y pryd ac yn mynd i Ysgol Ardwyn. Daeth newidiadau mawr i fywyd yr ysgol. Tristwch mawr fu clywed am y bechgyn ifainc deunaw oed yn cael eu galw lan. Tristach oedd y newyddion torcalonnus am rai ohonyn nhw na ddeuen nhw byth yn ôl.



*Nest yn ymlacio yn y ffrog gyntaf brynodd hi erioed*

Adref ym Mhwllglas roeddwn i yn y cyfamser. Roedd y gwaith yn y tŷ yn dal i olygu coginio, pobi bara, a gwneud menyn – corddi gyda'r fuddai fawr. Er bod gyda ni bob un ein *ration book*, a chwpons dillad, roedd yr ieir a'r wŷyn a

phethau felly yn dipyn o *home help* i ni hefyd. Roedd yn rhaid bod â pharch at yr M.O.F – y Weinyddiaeth Fwyd, a fyddai'n galw heibio i gadw golwg ar y rheolau bwtsiera ac yn y blaen.

Ta beth am hynny, roedden ni wedi derbyn cosyn reit fawr o gaws o rywle ryw ddiwrnod! Penderfynwyd claddu'r cosyn yn yr ardd pan glywyd bod yr Inspectors ar eu ffordd. Pan ddaeth yr *all clear*, awd i gasglu'r cosyn o'r pridd, dim ond i weld bod y cŵn wedi ei fwyta!

Stori fach arall. Clywais fy nhad yn gweiddi ryw ddiwrnod prysur, ‘Nest, cer â’r sachau yna sydd yn y car draw i Glanfred.’ ‘Ond dw i ddim yn gallu dreifio car!’ protestiais innau. ‘Cer â Nansi efo ti,’ oedd yr ateb (Nansi oedd yr help llaw amryddawn iawn oedd yn gallu gwneud pob peth). Dyma ni’n dwy yn mynd yn yr hen Austin 16 mawr. Gyda llawer o hwyl a newid gêrs cyrhaeddwyd rhiw fach Bronceiro, methu cael gafael yn y gêr iawn a’r car yn rhedeg (fel byddech chi’n disgwyl) yn ôl i wal Cwarel. Dyna’r wers gynta ges i ar sut i ddelio â char. Dim trwydded, dim yswiriant, dan oedran, ond digon o ffydd!

Roedd y *land-girls* yn dod yn gyson i ymweld â ni i lenwi’r bylchau a adawyd am fod un neu ddau o’r gweision wedi seino mlân. Rhaid sôn am un boi bach ddaeth i’r adwy hefyd yr adeg hon, sef Stanley Musgrove, aelod ffyddlon o Fyddin yr Iachawdwriaeth. Roedd ei het yn gorwedd yn wastadol barchus ar ben ei focs mawr tun, lan llofft. Bedyddiwyd ef yn ‘Sais Bach’. Doedd e ddim math o ffermwr – yn mendio twll yn y sietyr gyda chortyn; dim lot o glem am ddim.

Un noson stormus ofnadwy yn yr hydref gosodwyd Pwllglas ar y map yn go iawn. Ryw hanner awr wedi naw oedd hi, a finnau yn gosod *rollers* yn fy ngwallt yn barod i fynd i’r ysgol fore trannoeth. Dyma ni’n clywed sŵn awyren a honno’n hedfan yn isel rownd a rownd, a ninnau yn ceisio gweithio allan beth allai fod yn bod. Yr ateb oedd ei bod hi’n feichiog o fomiau ac yn eu gollwng yn rhydd dros ein pennau. I’r twll stâr â ni, bawb ohonon ni, ond penderfynwyd mai dros y Dolau roedd y gwalch wedi taro.

Fore trannoeth, gyda’r wawr, ar ôl tynnu’r *blackout* yn ôl, dychmygwch y sioc anferth o weld twll anferth ynghanol Cae Coch, ac un arall yng ngardd Fronddêl, a rhagor ar hyd Banc Glanfred. Daeth llawer o bobl i ymweld â’r difrod. Es innau i’r ysgol y bore wedyn â darnau o’r bomiau i’w harddangos, a rhai darnau bach i’w gwerthu i’r plant, a’r elw yn mynd at y Red Cross.



*Nest (ar y chwith) a  
chriw o fyfyrwyr wedi  
bod ar waith maes*

Es i ymlaen i'r coleg a chael gradd mewn gwyddoniaeth. Am y rheswm hynny, ces i fy ngalwlan i wneud fy rhan fel *entomologist* gyda'r Weinyddiaeth Fwyd yn Llundain. Treuliais chwe mis yn astudio'r pryfed a'r cynrhon a'r gwiddon a'r gwyfon – 'gwyfyn a rhwd yn llygru' medd y Beibl – yn seler y staff yn yr Amgueddfa Wyddoniaeth, y Science Museum, yn South Kensington. Roedd enwau eithaf cerddorol ar y pryfed yma, sef *Borkhousina Pseudospitella*, *Ephestia Prunella* a rhai eraill tebyg.

Ces i amser difyr iawn yn ystod y cyfweiliad ges i am y swydd yma. Ces i ddewis rhwng dwy swydd:

- 1) cadw llygad ar bla o lygod mawr yng ngwersylloedd yr RAF;
- 2) bod yn *entomologist* iawn yn gofalu am stordai a llongau bwydydd yn y dociau yn Avonmouth, a hefyd stordai o gylch y wlad gyfagos.

Doedd dim dewis gen i, oedd e?!

Tra'n eistedd yn y fan honno yn meddwl, dyma'r seiren yn canu. Es i yn syth o dan y bwrdd. Symudodd y dyn bach ddim o'i stôl (fel yna roedd y bobl yn Llundain). Dyma sŵn y *doodlebug* yn tewi yn sydyn, a'r bom yn disgyn nid nepell i ffwrdd. Codais fy nhrwyn dros ymyl y bwrdd. '*Moths and beetles for you, my girl,*' meddai, â gwen fawr ar ei wyneb. Cerddais allan o'r ystafell yn ddigon hapus a bodlon.

Tra oeddwn yn astudio yn Llundain roeddwn yn aros gyda chyfnither i mi yn Richmond. Rown i'n cael cysgu'n saff dan yr *Anderson shelter* yn y tŷ. Cyn y wawr un diwrnod, disgynnodd y roced ddi-sŵn gyntaf ar Lundain, ryw ddwy stryd i ffwrdd, heb ei disgwyl. Ac yna daeth sŵn a difrod erchyll ofnadwy, wrth gwrs. Wrth ddeffro i hyn i gyd, y peth cyntaf feddyliais i oedd, 'Sdim rhagor o foms yn disgyn ar Bwllglas, gwlei!'

Fy nyletswyddau tra'n gweithio i'r M.O.F. yn Avonmouth oedd ymweld â llongau a sicrhau bod y cargo i gyd yn rhydd o bob math o'r pryfed roeddwn i wedi cyfarwyddo â nhw yn yr Amgueddfa. *Liberty ships* oedd y llongau. Cafodd bron i dair mil o'r *Liberty ships* eu hadeiladu yn America i hwylio drwy'r *mines* a'r *U-boats* o Ganada ac America i Brydain, gyda'u *holds* yn llawn o lafur a gwenith a ffrwythau a siwgr. Os na fyddai'r cargo, a'r llong hefyd, yn cyrraedd safon dderbyniol o lendid byddai rhaid ei ffiwmigeiddio. Os felly, byddai'n gorfod treulio llawer mwy o amser yn y doc cyn hwylio'n ôl. Fyddai hynny ddim yn plesio'r capten na chwmmi'r llong. Fy ngwaith i oedd penderfynu.

Des i i adnabod morwyr o Ganada, America, yr Iseldiroedd, a Chymru hefyd. Roedden nhw'n garedig iawn, yn aml yn dod â phresant yn ôl i ni ar eu hymweliad nesaf.

Wedi eu dadlwytho, storid y cnydau yn seilos mawr cwmnïau fel Hosegoods, Spillers ac ati, ac wrth reswm roedd rhaid i ni warchod y rheiny hefyd. I ladd y pla, p'un ai wyfon, gwiddon neu gynrhon, byddai *sticky banding* yn cael ei osod o gylch pob wal, a'r pethau bach drygionus yn cael eu dal yn y rhwyd. Roedd DDT yn cael ei ystyried yn rhy wenwynig, felly roedd rhaid torri i lawr ar hwnnw.

Rhaid oedd dringo i lawr i'r gwahanol ddeciau i ymweld â'r cnwd. Roedd dringo i lawr yr ysgol raff i'r dec isaf yn codi tipyn o ofn arna i. Rhaid hefyd oedd dringo grisiau yn yr ystordai, i bedwar neu bump llawr.



Yn Hosegoods a Spillers byddai'r cnydau'n cael eu malu'n flawd yn y roleri mawr trydanol. Byddai llawer iawn o chwilod bach coch a'u cregyn bach coch yn cael eu malu hefyd, ac i'w gweld yn glir iawn yn y blawd gwyn. Synnech chi faint o'r rhain fydden ni'n eu bwyta!

Byddai gweddill y blawd bob amser yn aros ar y llawr dan draed y roleri. Allech chi ddim dweud mai aros oedd e, a dweud y gwir, achos roedd e'n fyw ac yn symud gyda'r *mites*, y pethau bychain iawn a oedd ynddo; '*poor little mite*' chwedl y Sais. Gyda'i gilydd roedden nhw'n bla effeithiol iawn. Roedd rhaid ysgubo'n gyson rhag i'r blawd i gyd widdoni.

Roedd y manylion y bydden ni'n eu casglu am y *Liberty ships* a'u cargos a'u dyddiad cyrraedd a hwylio yn faterion pwysig iawn, ac i'w cadw'n ddiogel iawn. Mae'n syndod ein bod ni yn cael ein hystyried yn ddigon abl i wneud hynny, ond dyna fel y bu hi am ryw ddwy flynedd.


Nid gwaith oedd hi drwy'r amser arna i. Pan yn Llundain roedden ni wedi cymryd mantais ar y cyngherddau 'am ddim' oedd yn cael eu cynnal bob amser cinio yn yr oriel gelfyddyd yn Leicester Square – y 'Lunchtime Concerts'. Clywais a gwrandewais ar yr artistiaid gorau yn y byd, fel Myra Hess ar y piano. Syfrdanodd ei thalent anferth hi fi, ac ysgogodd hi, a llawer arall a glywais i, fi i gymryd diddordeb a theimlo cariad mawr at gerddoriaeth.

Tra ym Mryste clywais y cerddorfeydd gorau oll, fel y London Symphony, y Liverpool Philharmonic a'r BBC Symphony. Roedd hi'n orfodol iddyn nhw berfformio'r tu allan i Lundain o achos y bomiau, ac ym Mryste roedd y neuadd yn ddigon o faint ac yn ddigon diogel iddyn nhw. Ces i'r fraint fawr o weld Syr Thomas Beecham a Syr Adrian Boult yn arwain.

Uchafbwyntiau fy ngyrfa oedd i fi gael y pleser o ymuno yn nathliadau diwedd yr ymladd yn Ewrop – VE. Rhaid oedd dal y trê'n i Lundain i ymuno â'r miloedd oedd yn cerdded y strydoedd

dan ganu a llawenhau, nes cyrraedd Buckingham Palace, a digwydd bod y teulu brenhinol allan ar y balconi. Bythgofiadwy iawn oedd y cwbl hynny.

Yn ei dro, a chyn hir iawn diolch byth, dyma lawenhau eto – VJ, heddwch yn Japan. Roeddwn i'n digwydd bod ar y llong SS *Yearby*, a'r cwmni llon hwnnw a wnaeth ein diwrnod eto yn fythgofiadwy.



*A dyna HWYL a gawson ni ar fwrdd yr SS Yearby!!*

## *Llundain a Llanfihangel-y-Creuddyn*

*Atgofion Marjorie Hughes*

Cyn sôn am fy atgofion adeg y rhyfel yn ninas Llundain, dyma roi ychydig o hanes fy nghefnidir. Cefais fy ngeni yn Llundain yn ferch i deulu busnes llaeth a oedd yn rhedeg *dairy*.

Stockwell, Brixton a Clapham – dyna’r ardaloedd sy’n fyw yn y cof i mi, lle buon ni fel teulu yn rhedeg busnesau llaeth, yr un fath ag amryw o Gymry’r cyfnod hwnnw, gyda chymdeithas gref Gymraeg yn amgylchynu byd y capeli. Capel Shirland Road oedd ein capel ni.



*Capel Shirland Road*

Byddai’r *dairies* yn derbyn llaeth mewn *churns* gyda’r nos a’i roi yn yr iard gefn. Swyddogaeth gynta’r dydd, bob dydd, fyddai trosglwyddo’r llaeth i boteli peint neu hanner peint. Byddai fy nhad yn codi am bedwar o’r gloch bob bore i’w llenwi a gosod *stoppers*

cardfwrdd arnyn nhw, cyn mynd ati i’w llwytho mewn *crates* i’w cludo â llaw mewn *barrow*. Roedd hyn cyn oes y faniau trydan.

Gwaith caled oedd cynnal y busnes. Byddai fy nhad yn ddiwyd yn mynd â’i *farrow* o amgylch ein cwsmeriaid yn foreol yn dosbarthu poteli gan iodlo ym mhob drws; roedd e’n dipyn o gymeriad!

Y swydd gynta wedi cael brecwast oedd mynd ati i olchi’r poteli a’u gosod yn barod i’w hail-lenwi’r diwrnod canlynol. Byddai gan bob *dairy* ei photeli arbennig a’i henw arnyn nhw. Ysgrifen

las oedd ar ein poteli ni, yn darllen W D Rowlands, 'Jersey Farm Dairy', 18 Combermere Road, Stockwell, SW9.

Roedd y poteli yn hynod werthfawr; fe'u prynid wrth y *gross*. Yn achlysurol byddai gŵr a elwid yn *strayman* yn dychwelyd poteli o'n heiddo ni a fyddai wedi mynd i ryw *ddairy* arall, a ninnau'n dychwelyd unrhyw boteli oedd gyda ni a fyddai'n berchen i fusnesau eraill.

Ar ymweliad diweddar ag Amgueddfa Ceredigion yn Aberystwyth, deuthum ar draws poteli llaeth ac enwau M H Ellis, Glan-mad, D W Evans, Wiltshire Farmers, King St, Hammersmith, a *barrow* llaeth tebyg i'r un oedd gennym ni a llawer i *ddairy* arall. Daeth hynny â llawer o atgofion yn ôl.

Wedi gorffen y golchi, byddai'r siop yn agor am wyth y bore yn brydlon. Byddwn i'n mynd i'r ysgol gyfagos i dderbyn fy



*Marjorie yn ddwy oed  
yn y gert laeth*

addysg trwy gyfrwng y Saesneg. Saesneg oedd ein hiaith bob-dydd ni. Fyddai neb yn ystyried siarad Cymraeg, yn enwedig yn y siop o flaen cwsmeriaid, rhag achosi unrhyw ddrwg-deimlad. Mae gen i gof clir o'r siop yn llawn prysurdeb, yn enwedig pan fyddai pobl yn galw ar eu ffordd adref o'r

gwaith. Ar ôl cau, byddai rhywun mwy na heb wrth y drws wedi anghofio rhywbeth.

Arferai dyn y cyngor ddod gyda'r hwyr i gynnau'r lampau nwy a fyddai'n goleuo'r strydoedd, ac mae gen i gof o ŵr yn galw ym mhob stryd â basged fawr o dan ei fraich gyda chig ar bren a elwid yn *pricks* ar gyfer y cathod.

Ond daeth tro ar fyd yn 1939, a minnau ond yn wyth oed. Daeth sôn mawr bod rhyfel ar ddod. Ym mis Medi'r flwyddyn honno cyhoeddwyd bod y rhyfel ar ddechrau. Dyna ddiwedd ar batrwm bywyd fel roedden ni'n gyfarwydd ag e.

Gosodwyd *Anderson shelters* yng ngerddi cartrefi a daeth lorri gyngor o amgylch pob stryd i gasglu metel. Byddai'n ofynnol i bawb i gyfrannu'r *railings* o flaen eu tai ar gyfer cynhyrchu *munitions*.

Galwyd ar bob dyn ifanc i ymuno â'r fyddin ac i basio'r *medical*. Ymunodd llawer o ferched â'r ymdrech hefyd, rhai i ffatrïoedd *munitions* neu i ymgymryd â gwaith gweinyddol. Dosbarthwyd *gas mask* i bob plentyn yn yr ysgol; byddai'n ofynnol cario hwnnw gyda chi bob amser. Yn yr ysgol hefyd, yn ddiweddarach, y byddai plant yn ymgynnull i'w dosbarthu i ardaloedd gwledig yn *evacuees*.

Daeth chwith mawr yn y cyfnod hwn. Roedd y strydoedd yn wag a'r dynion ifanc wedi mynd i'r rhyfel. Roedd pawb yn llawn disgwyl ac ofn o beth oedd ar droed. Daeth newyddion dros y radio bod Hitler wedi llwyddo i gipio Ffrainc. Dim ond môr oedd rhyngom ni a'r gelyn felly.

Mae gen i gof o *barrage balloons* yn cael eu gosod yn Clapham Common i rwystro awyrennau bomio rhag ysgubo'n isel lawr dros yr ardaloedd poblog. Petai awyren yn cyffwrdd â'r balwms, byddai'n ffrwydro. Byddai'r awyr yn goleuo wrth i'r *search-lights* geisio dal awyrennau'r Almaenwyr a fyddai'n hedfan uwchben.

Byddai *blackout* yn cael ei ddefnyddio gyda'r hwyrnos. Roedd hi'n hanfodol nad oedd yr un llygedyn o olau i'w weld, rhag i'r gelyn feddwl gollwng bom. Byddai'r seirens yn canu ddydd a nos, a byddai'n rhaid ffoi i lochesu, un ai draw i loches gyhoeddus neu i loches yng ngwaelod yr ardd. Byddai'r lle'n atseinio gyda sŵn saethu yn Clapham Common, y shrapnel yn

disgyn yn y strydoedd (peth peryg iawn petai bobl yn dal allan), a'r lle yn llachar â goleuadau'r *search-lights*.

Byddai'r *air raids* yn para'n hynod o hir. Rhyddhad fyddai clywed caniad yr *all clear* yn atseinio. Byddai pawb yn dod i'r golwg i archwilio unrhyw ddifrod ac i barhau â'u bywydau pob dydd. Daeth hyn yn ffordd o fyw. Fyddai fy rhieni ddim yn mynd i lochesu yn ystod yr *air raids*. Byddai fy nhad allan ar ei rownds, un ai'n dosbarthu bwyd neu'n casglu biliau, a Mam yn rhedeg y siop.

Gwaethygodd y bomio, a chyflwynwyd llyfrau *ration*. Byddem yn paratoi pecynnau gofalus: 2 oz o fenyn,  $\frac{1}{4}$  o fargarîn,  $\frac{1}{2}$  pwys o siwgr, sef dogn wythnosol pob person, a phwys o jam am fis. Yr adeg honno byddai pob peth yn dod mewn pecynnau mawr: y caws, y menyng, casgenni o finegr a bocsys mawr tun o fisgedi rhydd.



*William David Rowlands yn dosbarthu llaeth yn Islington*

busnes a cholli eu bywoliaeth. Euthum i Lanfihangel-y-Creuddyn i aros gyda fy ewythr a'm modryb yn Fferm Pendref. Doedd y lle ddim yn ddieithr i mi gan fy mod yn arfer mynd yno i aros yn ystod misoedd yr haf.

Byddai siswrn ar linynglwm wrth y cownter er mwyn derbyn y tocynnau *ration*, a thasg fisol fyddai eu didoli i'w cyflwyno i swyddfa'r dref.

Wedi misoedd o fyw ynghanol y sŵn a'r ofn daeth fy rhieni i'r casgliad y buasai'n ddoeth i mi aros yn y wlad gan fod bygythiad mwy o fomio. Ni fyddai fy rhieni yn breuddwydio am adael y

Teithiais i Gymru gan adael stesion Paddington ar drên deuddeg yr hwyr, ar ôl cau'r siop. Rhoddwyd ychydig o arian i'r gard i ofalu amdanaf ar y siwrne, a darparwyd paneidiau o de yn achlysurol ar hyd y daith. Byddai siwrne o ryw wyth awr cyn cyrraedd stesion Trawscoed i gael fy nghyfarch gan fy mherthnasau.

Roedd gan fy rhieni hwythau ffordd bell i ddychwelyd i'r siop ar ôl fy hebrwng i'r trên. Roedd pob modd o drafnidiaeth yn dod i ben wedi hanner nos, felly byddai'n rhaid iddyn nhw gerdded y daith faith yn ôl adref cyn parhau gyda'u gorchwylion dyddiol yn y *dairy*.

Roedd bywyd gwledig Pendref yn hollol wahanol i'r hyn roeddwn i wedi arfer ag e. Rhaid oedd mynd ati i odro, rhoi llaeth i'r lloi, ac yna i'r llaethdy i separatio a chorddi er mwyn cynhyrchu menyf. Pobwyd bara mewn ffwrn wal. Tân ar lawr oedd yn berwi'r tegell. Nid oedd unrhyw gyfleusterau fel trydan, goleuadau nwy na radio ar gael, dim ond lamp oil i gynnau golau gyda'r nos. Bywyd cyntefig iawn o'i gymharu â Llundain! Arferwn fynd gyda fy modryb i'r dre, ar droed am ddwy filltir ac yna dal bws, i werthu cynnyrch y fferm – wyau a menyf.

Ar fy ymweliad cyntaf ag eglwys Llanfihangel-y-Creuddyn fe'm cyflwynwyd i Miss Evans, yr ysgolfeistres leol, a'r bore trannoeth ymunais ag ysgol y pentref. Cefais fy rhoi mewn dosbarth wedi ei neilltuo i fi ac oddeutu deg o ferched eraill oedd hefyd wedi cael eu danfon o Lundain. Roedd ein Cymraeg ni i gyd yn gymharol fratiog ac roedden ni i gyd yn ceisio dygymod â'r newid.

Yn fuan wedi hynny ymunodd mwy â'r dosbarth wrth i fysiau niferus gyrraedd y pentref yn llawn *evacuees* o ddinas Lerpwl. Daeth y plant a rhai mamau â'u *gas masks* a'u nwyddau. Rwy'n eu cofio nhw i gyd â label yn dwyn eu henwau a'u manylion personol ar eu cotiau. Fe'u didolwyd rhwng teuluoedd yn y pentref a'r ffermydd cyfagos.

Nid dim ond pobl oedd yn cael eu danfon i'r wlad; daeth llond cist o lestri a dillad o Lundain i Bendref i'w cadw'n ddiogel.

Tawelodd y bomio yn Llundain am gyfnod. Dychwelais innau yn ôl adref i ymuno â fy rhieni, ond dychrynais at y newid. Dim ond deg ohonon ni oedd yn ymgynnull mewn ystafell fechan yn yr ysgol. Roedd y rhan fwyaf o'r adeilad wedi ei ddinistrio gan y bomio. Deuai warden yn ddyddiol i'n cyfri ni.

Roedd gan fy nhad orchwyl fel warden yn ogystal â rhedeg y busnes. Tra byddai Mam a finau yn mynd i lochesu yn yr *Anderson shelter* gyda'r nos a fflasg o de i'n cadw ni'n gynnes a flachlamp i roi llygedyn o olau i ni, byddai fy nhad yn mynd lawr i'r ARP post i ymuno â'r wardens eraill. Bydden nhw'n chwilio'r strydoedd i sicrhau bod pawb wedi mynd i lochesu a neb yn torri'r *blackout*. Byddai gan bob warden fwcedi o dywod i ddiffodd *incendiary bombs* oedd yn adnabyddus am gynnau tân yn gyflym.

Mi fuon ni yn hynod o lwcus wrth edrych yn ôl, ond roedd llawer na fu mor ffodus. Dioddefodd Mr a Mrs Evans, perchnogion *dairy* yn Stockwell Road a oedd yn union gyferbyn â ni, *direct hit* a cholli eu bywydau. Dim ond rwbel oedd yn dynodi lle safai eu cartref. Collodd teulu arall o Gymry eu bywydau wrth i *land-mine* ddisgyn a chlirio stryd gyfan o dai.

Disgynnodd bom ar ein stryd ninnau hefyd, dim ond dri drws i lawr, gan ddymchwel y nenfwd a chwythu'r ffenestri allan. Er hynny, rhaid oedd agor y siop. Gorchuddiwyd y ffenestri ac aeth y busnes yn ei flaen heb drydan.

Ond nid yn Llundain yn unig y disgynnai'r bomiau, yn wir tra'n aros gyda'r teulu yn Llanfihangel-y-Creuddyn disgynnodd bom led cae o'n cartref. Yn ffodus ni anafwyd neb.

Pobl gyffredin, ddiniwed a ddioddefodd yn ystod y cyfnod hwn, ac mae amryw o bobl gyffredin yn parhau i ddioddef ar draws y byd yng nghanol terfysg hyd heddiw. Am y rhain mae'n rhaid cofio.



## *Blondie wrth y Spark Plugs*

*Atgofion Eirlys Owen*

Pan dorrodd y rhyfel allan yn 1939, gweithio mewn siop trin gwallt yn Aberystwyth rown i a newydd orffen fy mhrentisiaeth.

Ym mis Ebrill 1941 dyma fi'n cael yr alwad i ymuno â'r Llu Awyr, y *call-up* fel y'i gelwid. Rown i'n bedair ar bymtheg erbyn hynny.



*Eirlys yn ei hiwnifform ar ddechrau'r rhyfel*

Felly, ar fore hyfryd, y 9fed o Fai, dyma fi a Mam yn cerdded i lawr y pentref i orsaf trên Bow-Street i ddal y trên o Aberystwyth i fynd â fi i Insworth Lane, canolfan y Llu Awyr ger Gloucester. Roedd fy mam druan yn torri ei chalon. Cyrhaeddais i Gloucester yn hwyr y prynhawn a daeth llu o ferched tua'r un oedran â fi allan o'r trên. Rhaid aros wedyn i drên arall ddod i mewn i'r orsaf â rhagor o ferched a oedd hefyd yn mynd i Insworth.

O'r diwedd dyma glamp o *sergeant* yn cyrraedd ac yn ein harwain allan o'r orsaf i'r drafnidiaeth a fyddai'n ein cludo i Insworth. Tair lorri anferth oedd y 'drafnidiaeth'. Dyma fi'n cael fy llwytho mewn i gefn un ohonyn nhw. Doedd yno ddim lle i eistedd. Roedd pawb yn cael eu gwthio yn erbyn ei gilydd, a phawb yn dawel iawn. Deellais i'n fuan mai dyna oedd i'w ddisgwyl pan fyddai sôn am drafnidiaeth – lorri, dim bws.

Roedd Insworth tuag ugain munud o daith o Gloucester. Does gen i ddim llawer o gof beth ddigwyddodd ar ôl cyrraedd, ond rwy'n cofio cael fy arwain i *hut* a oedd i fod yn gartref i mi am y bythefnos nesaf. Roedd rhyw ddau ddwsin o welâu yn yr *hut*, gwelâu sengl, llai na rhai sengl arferol, a dyma ni'r merched yn gorfod aros wrth draed ein gwelâu tra bod y corporal yn ein hyfforddi sut i'w gwneud nhw. Roedd pentwr o dhillad gwely ar un pen. Roedd y matresi fel tair clustog setî; *biscuits* oedd yr enw ar y rheiny. Ar ôl eu gosod yn eu lle roedd rhaid rhoi shitsen ac un blanced drostyn nhw, wedyn y gobennydd – un crwn fel *swiss roll* fawr – wedyn shitsen arall ac wedyn y blanced olaf. Dyna'r patrwn o wneud gwely a rhaid oedd ei ddilyn.

Y bore trannoeth cawsom ein galw yn fore iawn, y corporal yn gweiddi '*Wakey wakey*' i'n deffro, cyn ein harwain i'r tŷ golchi.



*Eirlys ar ddiwedd  
y rhyfel*

Cyn mynd i gael brecwast rhaid oedd gosod y dillad gwely yn ôl yn bentwr yr un fath â'r noson cynt, a dyna'r drefn am y pedair blynedd nesaf, tra bues i yn y WAAF, ac eithrio ar ddydd Sul.

Am y bythefnos nesaf dyma gychwyn y broses o fy ngwneud i'n WAAF go iawn, yn aelod o'r Women's Royal Air Force. Roedd yn rhaid inni gael *medical, vaccinations, inoculations*, ac iwnniform las.

Un iwnniform gawson ni: sgert a thunic, *battle dress*, cot fawr, dau bâr o sgidie, tri o bopeth mewn dillad isaf, tri phâr o sanau llwyd, a thri chrys a choleri rhydd. Dyna broblem ges i efo'r styds. Problem arall oedd gwneud cwlwm yn y dei ddu. I ddal y cwbl roedd *kit-bag* mawr, mwg peint mawr trwchus, a chylllell, fforc a llwy, *respirator* a

het dun. Hefyd, cawson ni ddwy ddisg adnabod: un yn rhoi fy enw ac yn hysbysu fy mod yn 'Welsh Methodist', a'r llall yn rhoi fy rhif 446550 i, a fy ngrŵp gwaed i. Roedd y rhain ar linyr tenau a rhaid oedd eu gwisgo o amgylch fy ngwddf.

Gyda llaw, wrth fynd drwy'r broses o fod yn WAAF rhaid oedd mynd i wahanol swyddfeydd, *Admin Offices* fel y'u gelwid. Un broblem oedd fy enw Cymraeg, Eirlys Myfanwy. Yr ymateb bron bob tro oedd, '*How do you spell it?*' neu '*Come again, but slower this time.*' A phroblem arall oedd yr enw Bow-Street – neb yn credu ei fod yn enw ar bentref a bod gorsaf yno. Rhaid oedd enwi'r orsaf er mwyn cael *travel warrant* i ddod adref ar *leave*.

Ar ôl gwisgo'r iwnifform rhaid oedd dysgu martsio, saliwio a dweud '*Yes, sir*' a '*Yes, ma'am*' wrth yr *officers*. Redd gen i ddwy droed chwith am ddiwrnodau wrth geisio martsio, fel llawer o'r merched eraill. Doedd *Dad's Army* ddim ynddi! Ond erbyn y diwrnod olaf yn Insworth a'r *march past* heibio'r *Commanding Officer* roedden ni'n griw bach eithaf golygus.

Ces i fy symud i Melksham yn Wiltshire ar ôl fy mhythefnos yn Insworth. Erbyn hyn rown i wedi dod yn ffrindiau gyda merch o Gasllwchwr ger Abertawe, ac rŷn ni'n dal mewn cysylltiad. Adria yw ei henw hi, ac rown i'n falch o ddeall ei bod hithau hefyd yn dod i Melksham i gael ei hyfforddi'n S.P.T. fel finnau.

Beth oedd S.P.T? Wel *Spark Plug Tester*. Down i erioed wedi clywed am *spark plug*, heb sôn am eu testo. Cyn testo'r plygs, roedd rhaid eu tynnu yn ddarnau a'u glanhau. Roedd plygs gwahanol i bob injan, a gwahanol injan i bob awyren. Roedd e'n waith diddorol, ond yn ddiethr iawn i fi ar y cychwyn – gweithio efo petrol 100 octen, brws weiar a *feeler gauge*, wedyn eu testo mewn dau beiriant. Ar ddiwedd mis ym Melksham rown i'n eithaf hyderus ac mi basiais yr arholiad.

O Melksham cafodd Adria a fi ein danfon i Fairwood Common, lle mae maes awyr Abertawe erbyn hyn, ryw bedair i bum

milltir o Abertawe. Roedd yr erodrom yn newydd iawn a doedd safle'r WAAF ddim wedi ei gwblhau, felly cawson ni ein biletio mewn llety yn Killay, sef pentref cyfagos. Roen ni'n lwcus cael bod efo'n gilydd.

Pan gyrhaeddod ni'n hwyr y prynhawn roedden ni'n meddwl ein bod ni mewn gwesty pum seren: y bwrdd te yn orlawn, lliain bwrdd lês a'r llestri gorau yn yr ystafell orau, ond dyna'r tro diwethaf i ni eu gweld nhw. Yn y gegin roedden ni ar ôl hynny, ac mewn byr amser roedden ni'n gorfod coginio'n brechwast ein hunain a pharatoi ein brechdanau i fynd i'r gwaith – bara margarîn a brechdanau jam fel rheol. Doedden ni byth yn gweld gŵr a gwraig y tŷ yn y bore. Roedden nhw'n dal yn eu gwely.

Roedd rhaid dal lorri am wyth y bore i fynd i'n gwaith. Doedd dim problem nawr gan ein bod mewn *battle dress*. Roedd rhyw dri dwsin ohonon ni mewn *lodgings* yn y pentref ac wrth fynd i'r gwaith roedden ni'n canu nerth ein pennau, caneuon amser rhyfel. Lot o hwyl. Bydden ni'n cael swper ar ôl mynd yn ôl i'n llety a, chware teg, swper eithaf da. Doedd dim llawer o amrywiaeth, ond dyna beth oedd i'w ddisgwyl gan ei bod hi'n amser rhyfel wedi'r cwbl.

Buon ni yn ein llety am dros flwyddyn. Doedd e ddim yn llety da o bell ffordd, ond roedd e dipyn yn well na beth oedd o'n blaenau yn safle'r WAAF. Yr *huts* a'r gwelâu bach oedd yn ein disgwyl ni yno, a gorfod mynd allan i'r tŷ ymolchi a'r tŷ bach. Doedd hynny ddim yn rhy ddrwg yn ystod yr haf, ond stori arall oedd hi yn y gaeaf! Mae Fairwood Common yn lle agored iawn, lan yn uchel o Abertawe, ac mae'n cael llawer o wynt, glaw a niwl trwchus yn y gaeaf.

Gyda llaw, pan gyrhaeddod ni Fairwood mi gollais fy enw Eirlys yn gyfan gwbl a chael yr enw 'Blondie'. Dyna beth mae fy ffrindie o amser y rhyfel yn dal i fy ngalw hyd heddiw.

Roedd erodrom Fairwood yn enfawr a thipyn o ffordd i deithio o un uned i'r llall, felly roedd rhaid mynd i'r *store* i archebu beic.

Roedd bron pawb yn Fairwood ar gefn beic. Roedd pellter o bron ddwy filltir o safle'r WAAF i'r *cook-house*. Yn y fan honno roedd byrddau pren a meinciau, bechgyn a merched yn cymysgu a thipyn o hwyl. Roedd yno ddigon o fwyd plaen a *stodge*, a dim sôn am *galories* a cholestrol! Ar ôl gorffennu bwyd, bydden ni'n mynd i'r cafn dŵr y tu allan i olchi'n llestri mewn dŵr oer.

Roedd hi'n amser prysur iawn yn y gwaith pan oedd y tywydd yn caniatáu hedfan. Gorsaf *fighter* oedd Fairwood a bechgyn yn dod yno yn eu tro o Holand, Awstralia, Gwlad Pwyl, Tsiecoslofacia, Norwy a Ffrainc. Roedd hynny'n ddiddorol iawn i ni'r merched!

Cyn i mi gyrraedd Abertawe roedd yr ardal wedi ei bomio'n drwm ac roedd yr hen 'Jerry' yn dal i ddod o dro i dro. Yn 1943 cafodd safle'r WAAF *direct hit* efo dau fom. Yn rhyfeddol, dim ond dwy WAAF a laddwyd. Y flwyddyn ganlynol, ar nos Wener y Groglith, noson olau leuad hyfryd, rown i'n eistedd ar fy ngwely'n darllen a dim ond dwy ferch arall yn yr *hut*, pan glywson ni swm rhyfeddol yn dod yn fwy agos. Y funud nesaf roedd y to'n cwmpo a phlastr ymhob man. Ar ôl mynd allan i weld beth oedd yn digwydd, gwelon ni fod tri *hut* wedi eu difetha i'r llawr a merched yn gaeth oddi tanyn nhw. Doedd dim bom y tro hwn; *Halifax bomber* a oedd mewn trwbl oedd wedi disgyn. Cerddodd y criw allan o'r awyren yn ddianaf, ond cafodd naw WAAF niwed difrifol a bu un ferch farw. Dorothy, chwaer Hilda Thomas, Cwmere, Bont-goch, oedd honno.

Un peth a achosodd ofid i fi oedd gorfod mynd ar gwrs i ddysgu saethu. '*Back-up course*' oedd yr enw arno fe. Roedd rhaid saethu efo reiffil o'r ysgwydd ac anelu am y targed; gorwedd wedyn, rhoi y reiffil ar y sandbag ac anelu; yna, saethu Stengun, ac anelu am ganol y targed. Cymro oedd yr hyfforddwr, sef y sarjant. Roedd e am i fi wneud yn dda, felly roedd e'n sefyll wrth fy ymyl i yn sibrwd 'Gwna dy ore, Blondie!' Roedd yr S.O.'s yn dangos sut i saethu, ond doedd Blondie ddim yn

cymryd sylw. Cyn gynted ag y clywen ni'r gair '*Shoot*', roedd y bwledi, neu beth bynnag oedden nhw, yn cael mynd. Petawn i byth yn cwrdd â'r gelyn, hances wen fyddai gyda fi!

Yn ein hamser hamdden roedd digon o adloniant ar y camp, neu bydden ni'n mynd i ddawns yn y Patty Pavilion yn Abertawe neu'r Pier yn y Mwmbwls. Yn ystod yr haf byddem yn mynd ar ein beics i ddarganfod pentrefi Penrhyn Gŵyr. Ar y Sul, os nad oedden ni'n gweithio, mi awn i oedfa'r hwyr i'r capel yn Dyfnant neu Three Crosses. Ambell waith byddai'n rhaid mynd ar y *church parade* ar y camp.

Beth am y cyflog? I gychwyn, saith swllt (35 ceiniog) yr wythnos. Ces i ddyrchafiad yn 1942 a chael deuddeg swllt. Er mwyn derbyn y cyflog rhaid oedd mynd ar y *pay parade* unwaith bob bythefnos. Dyna oedd owting. Martsio lan i hanger cyfagos, bwrdd yng nghanol y llawr, dau swyddog a chlerc yn eistedd wrth y bwrdd, a'r clerc yn galw fy enw. Unwaith y clywn i fy enw byddwn i'n martsio at y bwrdd, dweud fy rhif, saliwtio, derbyn y swm enfawr, saliwtio eto a martsio yn ôl.

Daeth diwrnod *de-mob* yn 1946, ar ddydd Calan. Es i ar y trên i Birmingham a chyrraedd am hanner dydd. Rhaid oedd rhoi'r dillad i gyd yn ôl heblaw am yr iwniform oedd amdanaf i, a'r mwg. Derbyniais £48 a *voucher* i gael cyflog am fis. Bues i'n ddigon lwcus i ddal trên adref yr un diwrnod, a dyna groeso ges i!

Aeth yr iwniform at y mat rhacs oedd fy nhad yn ei wneud ar y pryd, ond mae'r botymau gen i o hyd. Dadi gafodd y mwg hefyd, i siafio. Aeth y cap a'r medalau i'r carnifal.

O fewn tair wythnos roeddwn i yn ôl yn gweithio yn yr hen siop trin gwallt.



*Priodas Eirlys ac Ifor  
Diwrnod Sioe Tal-y-bont, 1946  
Aeth cwpons de-mob Eirlys i gyd ar y ffrog hyfryd hon*





## ***Bletchley Park a La Paz***

*Atgofion Morfudd Rhys Clark*

Rwy'n cofio'n dda iawn y bore Sul pan glywsom gyhoeddi rhyfel rhwng Prydain a'r Almaen. Ar y dydd Gwener cyn hynny, sef y cyntaf o Fedi 1939, roedd yr Almaen wedi ymosod ar Wlad Pwyl. Er nad oedd rhyfel wedi ei gyhoeddi roedd y canlyniadau yn anochel a'r *evacuees* – sef plant a'u hathrawon o Lerpwl – wedi dechrau cyrraedd yr ardal. Bu un o'r athrawesau yn byw ym Mronceiro am ychydig, ac yn nes ymlaen daeth nifer o blant. Ar y dydd Sul, Medi'r 3ydd, rwy'n cofio sefyll yn y gegin efo'm brawd Ceredig a Nest fy chwaer a'm cefnder David James yn clywed y geiriau gan Chamberlain, y Prif Weinidog, yn cyhoeddi'r rhyfel. Roeddwn yn ei chael hi'n anodd derbyn ein bod yn wynebu'r fath sefyllfa, ond erbyn y noson honno roedden ni wedi llwyddo i osod *blackout* o ryw fath yn yr ystafelloedd byw. Daeth y *ration books* yn rhan o'n bywyd a'r *coupons* yn cyfyngu ar faint o ddillad, esgidiau, dillad gwely, gwlan ac ati y gallem eu prynu.

Yn 1939 roeddwn yn fy ail flwyddyn yng ngholeg St Hugh's yn Rhydychen. Ym mis Hydref roedd hi'n bryd dychwelyd yno. Roedd St Hugh's wedi ei gymryd drosodd gan y fyddin ac wedi ei droi yn ysbyty milwrol. Roedden ni, sef myfyrwyr St Hugh's, wedi cael ein symud i adeilad oedd yn rhan o New College. Roedd hi'n siom gorfod gadael ein coleg a'i erddi hyfryd, a oedd erbyn hyn yn llawn pebyll a chutiau, ond rhaid cyfaddef ein bod wedi cael llety dymunol iawn dan yr amgylchiadau.

Roedd y bywyd academaidd yn dal yn weddol sefydlog, ond roedd hi'n amlwg fod yno lawer bwlch. Roedd nifer y dynion ymhlith y myfyrwyr yn llai, a llawer yno am amser byr a chwedyn yn diflannu, wedi cael eu galw i fyny. Mewn ffordd arall roedd poblogaeth Rhydychen wedi cynyddu gan fod rhai o golegau Llundain wedi trosglwyddo yno, a gwelwyd yno hefyd

lawer o aelodau o'r lluoedd arfog o wledydd fel Tsiecoslofacia a Gwlad Pwyl.

Un o'r pethau nodweddiadol yr adeg yma oedd distawrwydd y clychau. Roedd sŵn y clychau'n canu wedi bod yn rhan annatod o gymeriad y ddinas hyd at 1939, pan ddaeth cân y clychau'n arwydd bod y gelyn wedi glanio yn y wlad. Peth arall oedd yn fy swyno oedd tywyllwch y nosweithiau pan mai'r sêr a'r lleuad oedd yr unig oleuadau, a hawdd, wrth gerdded ymhlith yr hen adeiladau, oedd dychmygu ein bod yn ôl yn yr Oesoedd Canol.

Roedd llawer o erddi a pharciau'r ddinas wedi cael eu troi a'u trin i dyfu llysiau a chynnyrch gwahanol, ac ar ddiwedd tymor yr haf 1940 bu ffrind a minnau yn rhan o'r Land Army. Buon ni'n lletya efo gwraig a'i baban oedd yn byw mewn pentref y tu allan i Rydychen. Roedd y wraig yn disgwyl ei gŵr adre ar ôl helynt Dunkirk. Cawson ni ganddo beth o'r hanes erchyll hwnnw, ond yng nghanol y cyfan roedd wedi mynd drwyddo roedd wedi llwyddo i ddod â thipyn o *lingerie* o Baris yn ôl i'w wraig!

Un o'r pethau roedden ni'n ei wneud ar y tir oedd casglu'r lindys oddi ar ddail y llysiau – eu casglu mewn jar a'u harllwys allan ar ben y rhes a damsgen arnyn nhw. Roedden ni hefyd yn gwneud tipyn o waith â chaib a rhaw rhwng y rhesi o *sugarbeet* a *mangles*. Roedd y tywydd yn arbennig o braf drwy'r amser a chawsom liw da!

Yn ôl ym Mronceiro roedd fy mrawd, a oedd yn fyfyrwr yn Aberystwyth, wedi ymuno â'r L. D. V. (Local Defence Volunteers neu'r Home Guard). Un noson syrthiodd bomiau rhwng Pwllglas a Fronddêl, a galwyd ef a'i gwmi allan i weld beth oedd y difrod. Drannoeth roedd y pentref i gyd allan yn gweld olion y bomiau, ac yn diolch nad oedden nhw wedi disgyn ar yr un tŷ na pherson.

'*Dig for victory*' oedd yr arwyddair, a than wyliadwraeth Dad-cu, J. T. Rees, buon ni'n cloddio'r lawnt ac yn hau tatw yno. Ces

i un flwyddyn eto yn y coleg a graddio yn 1941. Ar ôl hynny ces i waith efo'r Swyddfa Dramor yn cyfieithu Sbaeneg. Anfonwyd fi gyntaf i Bletchley Park. Roedd hi'n dipyn o antur mynd ar y trê'n a chael fy hunan ym mherfeddion Lloegr ac yn nabod neb.

Gwaith pennaf Bletchley Park oedd ceisio dadansoddi *codes* a *ciphers* y gelyn. Roedd rhyw awyrgylch arbennig yno a phobl o



*Bletchley Park*

wledydd eraill a phobl bwysig eu golwg ar hyd y lle, a minnau yn hollol ddiniwed yn eu plith. Beth bynnag, cyn hir trosglwyddwyd ein hadran ni i Lundain, i swyddfa a oedd yn rhan o'r Swyddfa Dramor a oedd wedi ei symud i

Park Lane – lle braf yn edrych dros y parc ac yng nghanol adeiladau braf.

Roeddwn i'n lletya allan yn Baron's Court ac yn aml byddwn i'n dod ar fy meic i'r swyddfa; mae'n anodd credu nawr fy mod i wedi seiclo mor jocôs ar draws Hyde Park. Roedden ni'n cael ein hyfforddi beth i'w wneud pan fyddai'r seirens yn swnio – ac roedd hynny'n go aml – ac yn gorfod cymryd ein tro i wneud *firewatching* ambell i noswaith. Bob nos roedd pobl a'u plant yn mynd lawr i'r gorsafoedd tanddaearol i ddianc rhag y bomiau. Byddai'r platfforms yn llawn o bobl yn ceisio cysgu dan amgylchiadau anodd ac anghysurus iawn.

Yn 1943 daeth fy nhad adref o Mexico, a'r canlyniad fu i mi fynd yn ôl gydag ef gan ei fod wedi cael ei benodi'n llysgennad i Bolivia. Hedfan o Southampton i Limerick yn Iwerddon oedd dechrau'r daith. Y bwriad oedd gadael Limerick drannoeth a hedfan i Newfoundland, ond fel y digwyddodd hi bu'n rhaid i ni aros yno am ddeg diwrnod am nad oedd y tywydd yn ffafriol i hedfan dros Fôr yr Iwerydd. Efallai, wrth gwrs, bod rhesymau

dirgel eraill. Felly, cawson ni weld tipyn o'r wlad oddi amgylch, yn teithio'n aml mewn trap a phoni – *jaunting cart*.

Roedd rhaid ymgynnull bob prynhawn yn y gwesty lle roedden ni'n aros, wedi pacio yn barod i adael. Yna, byddai rhyw swyddog yn dod i ddweud wrthym beth oedd y sefyllfa.

Ymhlith ein cwmni ni roedd newyddiadurwr o Mexico – prin ei Saesneg – oedd wedi cael damwain yn un o gyrchoedd awyr Llundain ac ar ei ffordd yn ôl i Mexico. Roedd e'n falch tu hwnt o gael cwrdd â rhywun oedd yn siarad Sbaeneg ag ef. Bu'n gwmi difyr ar ein teithiau. O'r diwedd, dyma ni'n gadael Limerick, ac ar ôl taith hir ac anghyfforddus mewn awyren cargo cyrraedd Newfoundland a hedfan, bob yn dipyn, i lawr i Mexico, gan gyrraedd yno ar Hydref 12fed, yr un dyddiad ond sawl canrif ar ôl i Columbus ddarganfod America.

Roedd fy nhad wedi bod yn *Chargé d'affaires* ym Mexico am sawl blwyddyn ac wedi llwyddo i wneud cysylltiadau ffafriol iawn efo'r llywodraeth yn ystod blynyddoedd blin yr helynt efo'r olew. Yn wir, roedd wedi llwyddo i greu cyfeillgarwch a dealltwriaeth arbennig rhwng Mexico a Phrydain, a bu cyfraniad trigolion Prydain at achosion fel y Groes Goch yn sylweddol. Y bwriad oedd aros ym Mexico am ychydig er mwyn iddo fe glirio rhai materion i fyny. Roedd e hefyd am i mi weld peth o'r wlad oedd wedi ei swyno cymaint. Fe'm swynwyd innau ganddi hefyd.

Ychydig cyn yr amser pan oedden ni i adael Mexico bu chwyldro yn Bolivia, a daeth gorchymyn o'r Swyddfa Dramor i ni aros ym Mexico nes y byddai Prydain yn cydnabod y llywodraeth newydd yn Bolivia. Y canlyniad fu i mi gael sawl mis ym Mexico. Cyrhaeddon ni Bolivia ym mis Gorffennaf 1944.

Mae La Paz, y brifddinas, yn uchel ym mynyddoedd yr Andes, 13,000 o droedfeddi i fyny. Roedd nifer sylweddol o Brydeinwyr yn byw yno, sawl un â mab yn y lluoedd arfog.

Roedd yno ddwy reilffordd Brydeinig a nifer o'r Prydeinwyr yn eu rhedeg: y naill yn rhedeg o La Paz i Buenos Aires yn yr Ariannin, a'r llall o La Paz i Arequipa yn Peru. Roedd gan y rheilffordd Glwb lle'r oedden nhw'n cynnal cyrddau ar bob math o achlysuron. Roedd e hefyd yn ganolfan i lawer o weithgareddau i godi pres i'w anfon at y Groes Goch a gwahanol bethau at ymdrech y rhyfel yn ôl ym Mhrydain. Yn aml fe fydden ni'n cael cyfarfodydd yn y Llysgenhadaeth at yr achos, llawer o wau sgeirff a balaclafas, menig ac ati i'w hela adref i Brydain.



*Morfudd a'i thad yn La Paz ar ddiwrnod cenedlaethol Bolivia, Awst 6ed*



*Morfudd a'i thad a'r Air Attaché*

Doedd bod yn *hostess* yn y Llysgenhadaeth ddim yn dod yn naturiol iawn i fi, ond roedd bod yn medru siarad Sbaeneg yn help mawr i gyfathrebu efo pobl y Llywodraeth a'u gwagedd ac efo'r rhai oedd yn gwasanaethu yn y gegin ac yn y blaen.

Roedd byw drwy chwyldro yn beth digon cyffredin yn Bolivia. Mwy nag unwaith bu pobl yn dod i'r Llysgenhadaeth i gael lloches am eu bod allan o ffafr efo'r rhai oedd yn llywodraethu. Bydden nhw'n aros efo ni nes bod modd iddyn nhw adael y wlad.

Un o'r pethau mwyaf anodd i fi orfod ei wneud oedd mynd i gydymdeimlo â gwraig y Prif Weinidog ar ôl i'w gŵr gael ei grogi gan y dorf yn y sgwâr o flaen yr eglwys gadeiriol.

O'r diwedd, daeth y newydd fod yr Almaen wedi ildio. Bu llawer o ddatlu yn y Clwb ac yn y gwahanol lysgenadaethau. Cynhaliwyd gwasanaethau crefyddol yn yr eglwys Brydeinig ac yn yr eglwys gadeiriol. Roedd y llawenydd yn fwy fyth pan ddaeth y rhyfel i ben yn Japan; llawer o ddawsio a chanu, a llawer gwasanaeth o ddiolchgarwch – pawb yn cydlawenhau.

Dyma ôl-nodyn personol. Tua thair blynedd yn ôl, a minnau ar y ffordd i'r dre, safodd car ar y ffordd gefn. Gofynnodd y wraig a oedd ynddo i mi a oeddwn i'n gwybod pwy oedd yn byw yn y tŷ gyferbyn. Atebais innau mai fi oedd yn byw yno. Dyma hithau'n rhoi'r hanes ei bod hi, fel *evacuee* fach bump oed o Lundain yn ystod y rhyfel, wedi bod yn byw ym Mronceiro, a'i brawd yn lletya yn Llandre. Roedd hi'n amlwg wrth ei hwyneb ei bod wedi hi bod yn hapus iawn ym Mronceiro efo Mam. Pan ddaeth hi yn ôl y prynhawn hwnnw fe aeth hi drwy Fronceiro a chrwydro'r ardd a'r berllan fel petai yn y nefoedd.

Roedd hi a'i brawd yn aelodau o'r fintai o blant a gafodd eu hela i'r Gymanwlad ar ôl y rhyfel. I Seland Newydd y cafodd Pat a'i brawd eu hela, a dyna lle maen nhw a'u teuloedd yn byw o hyd. Rydyn ni'n dal mewn cysylltiad.

## *O Ynys Tiree i Ynys Thorney*

### *Atgofion Trefor Lewis*

Ar ôl gadael yr ysgol yn 1935 es i i weithio yn siop bwtsier Northwood yn y dre, yn cario allan ar feic. Wedyn, ar ôl cyfnod byr yn brentis trydanwr gyda Meirion Jones, es i'n brentis masiwn i'r Dolau.

Roedd fy mhrentisiaeth i ar ben pan ddechreuodd y rhyfel yn 1939. Cafodd pump ohonon ni o'r Dolau – Alcwyn Magor, Idwal Lewis (brawd 'Nhad), Dei Waun Hir, Lewis Pugh o'r Waun, a finnau – fynd i Donfannau i adeiladu camp i'r milwyr oedd yn cael eu hyfforddi yno. Roedd hynny'n golygu codi am bedwar bob bore, saith diwrnod yr wythnos; dal bws ym Mheny-garn am hanner awr wedi pedwar i fynd i Landyfi, wedyn cerdded at stesion Dyfi Junction ar gyfer dal trên i fynd i Donfannau, a chyrraedd yno tua saith i hanner awr wedi saith y bore. Roedd dyn o'r enw Griffith Williams o Aberaeron yn dod gyda ni, ac yntau yn ei saithdegau.

Byddai'r bws yn llawn mwg bob bore, a pheswch, peswch, peswch diddiwedd. Roedd pawb bron yn smocio baco cryf – Ringers Best Shag – mewn cetyn clai. Trên a bws oedd hi ar y ffordd yn ôl hefyd, a chyrraedd adref am hanner awr wedi saith y nos. Doedd dim amser i ddim byd arall yn ein bywydau ni; doedd wiw i chi golli diwrnod o waith. Am un gaeaf y parodd hynny. Wedyn, cafodd Dei Jenkins o'r Borth a fi lojin yn nhŷ saer – y Garth, Tywyn.

Pan oech chi'n dechrau ar y gwaith roech chi'n cael *talley* yn y swyddfa. Roedd rhif ar hwnnw, a dyna fyddai eich rhif chi tra'ch bod chi'n gweithio yno. Roech chi'n cymryd eich *talley* allan yn y bore cyn dechrau gweithio a'i roi yn ôl ddiwedd y dydd. Roedd gwaith yn Harlech hefyd, ac roedd cymaint ohonon ni yn gweithio rhwng y ddau le – roedd yna gannoedd ohonon ni i gyd a neb yn gwybod pwy oedd pwy – fel ei bod hi'n bosib

rhedeg tipyn o racet. Petaech chi'n cael ffrind i gymryd eich *talley* chi yn Harlech a'i roi yn ôl ar ddiwedd y diwrnod gwaith, a chithau'n gwneud yr un peth yn Nhonfannau, gallech chi'ch dau gael eich talu ddwywaith. Ac roedd digon yn gwneud hynny, ond rhoddwyd pen arno.

Y tri oedd yn gweithio gyda fi oedd Dei Waun Hir, Twm Tŷ Pridd, Dôl-y-bont, a Jo Bach o Fachynlleth. Un diwrnod cawson nhw'u tri orchymyn i weithio'r ochr draw i'r lein. Roedd y *living quarters* ar un ochr i'r lein a'r *artillery* ar yr ochr arall. Roedd gard ar y lein ac roen nhw i fod i gael pàs i groesi. Am ryw reswm doedd dim un gyda nhw. Dyma nhw'u tri'n dechrau croesi'r lein heb foddran am y gard.

'*Halt!*' meddai llais o rywle.

'Mae rhywun yn gweiddi arnon ni,' meddai Jo bach.

'Peidiwch cymryd sylw,' meddai Twm Tŷ Pridd, ac ymlaen â nhw.

'*Halt!*' arall, ond neb yn cymryd fawr o sylw.

'*Halt or I'll fire!*'

'Myn diawl, maen nhw'n mynd i'n lladd ni, bois. Dwi'n mynd nôl!' meddai Jo, wedi deall o'r diwedd.

Ac yn ôl yr aethon nhw a chael eu cadw yn y *guard room* am y diwrnod fel cosb am beidio ufuddhau. Roedd e'n eu siwtio'n nhw'n iawn wrth gwrs – yn enwedig Dei Waun Hir!

Ar ôl deunaw mis yn Nhonfannau cawsom ein hanfon i Crugion, yr ochr uchaf i'r Trallwng, i godi gorsaf radio i'r awyrlu. Roedd rhaid i ni aros mewn lojin fan honno, a chael penwythnos bant bob mis. Rown i'n lojo gydag Alwyn Magor. Tra 'mod i yno ces i ddos o ffliw a buodd rhaid i fi ddod adref. Ar ôl gwella sylweddolais i bod y bois i gyd wedi mynd. Doedd neb o'r hen gwmmi ar hyd y lle. Down i ddim eisiau mynd yn ôl i Crugion; doedd e ddim yn lle neis iawn i weithio. Felly penderfynais i



joino lan yn Ebrill 1942; 'swn i wedi gorfod gwneud hynny beth bynnag. Gwirfoddolais i am yr awyrlu.

Es i i Gaerdydd am ryw ddwy neu dair noswaith i ddechrau, wedyn i Benarth i gael cito allan – iwniform a phethau, a theitl AC (*aircraftman*) rhif 1653313. Rown i'n ennill dimai'r wythnos yn fwy am fod crefft gen i, ond ychydig iawn o waith masiwn wnes i tra bues i yn yr awyrlu. Chafodd y trywel fawr o ddefnydd – dim ond i godi talcenni'r *Nissen huts*.

Ar ôl cael y cit es i i Newcastle-on-Tyne, lle roedd pencadlys y Northern Command.



*Trefor ar ddechrau'r rhyfel*

'From Aberystwyth,' meddai'r *flight sergeant* wrth edrych ar fy mhapurau i. 'Tywyn for you then.' Doedd neb balchach na fi. Lle'n agos i gartref. Ces i *route form* ac es i â hi i lawr i'r stesion, gan ddisgwyl cael tocyn i Aberystwyth.

'So, you're for Edinburgh,' meddai'r swyddog teithio fan honno. 'No,' meddwn innau.

'Tywyn'. Dangosodd e'r papurau i fi. Gwir y gair, 'Edinburgh' oedd ar y papur. Ac i faes awyr Turnhouse ger Caeredin y ces i fynd.

Yn y fan honno des i'n ffrindiau gyda bachgen o'r enw Wyndham Rees o Gaerfyrddin. Roedd llais bariton ardderchog gydag e. Treuliais i ryw fis neu ddau yn Turnhouse ac wedyn cael fy symud i Ynys Tíree, ynys fach ddeuddeng milltir o hyd a thair milltir o led yn y Sound of Mull. Roedd rhaid dal cwch o Oban i fynd yno. Os oech chi'n lwcus, byddech chi'n cael pàs 72 awr i fynd i'r tir mawr, ond waeth i chi hebddo fe, achos ble aethech chi? Roedd hi'n hala wyth awr i fynd i Oban ac wyth awr arall i ddod yn ôl. *Cattle truck* oedd y cwch – yn

llythrennol. Gan mai dim ond tywod a chreigiau oedd ar yr ynys ei hunan, doedd yno bron ddim porfa i ddefaid, a'r un peth ar Ynys Mull. Felly byddai'r ffermwyr yn mynd i'r farchnad yn Glasgow i brynu a gwerthu bustych i'w magu a'u pesgi ar yr ynysydd. Pysgotwyr oedd pobl yr ynys a physgod oedd eu prif fwyd nhw.

Ar y ffordd yn ôl o Oban byddai ffermwyr Mull yn dadlwytho yn Tobermory (Balamory heddiw). Doedd dim porthladd yno, felly byddai'r lloi yn cael eu taflu dros ymyl y cwch i'r môr, a chychod yn dod i nôl y ffermwyr. Byddai'r lloi yn canlyn y cychod at y lan. Roedd yr un peth yn digwydd wedyn yn Tiree.

Bues i yn Tiree am ddeunaw mis. Roedd pen tost gyda phawb yno oherwydd y gwynt cynnes o'r Gulf Stream. Petaech chi'n mynd at y doctor byddech chi'n cael aspirin – sdim ots beth oedd yn bod arnoch chi. Dyna pam cafodd e'r enw 'Doctor Aspirin'.

Doedd dim byd yn Tiree ond neuadd ddawns NAFFI. Un noson pan own i mewn dawns yno, dywedodd ffrind wrtha i, *'I've been dancing with a Welsh girl. You're Welsh, aren't you?'*

Dyma fi'n mynd i siarad â'r ferch; dreifer oedd hi, yn gyrru lorriss a phethau fel hynny.

Gofynnais i iddi o ble'r oedd hi'n dod.

'Birkenhead,' oedd ei hateb hithau.

Sylweddolais i'n sydyn fy mod i'n ei nabod hi; yn wir roedd hi'n gyfnither i fi. Roedd ei mam, Sally, yn chwaer i mam. Roen nhw'n arfer dod i dreulio'u gwyliau gyda'n mamgu yn Nhŷ'r Capel pan oedd hi'n blentyn. Peggy Shakespeare oedd ei henw hi. Cafodd hi ei symud, a welais i ddim ohoni wedyn nes iddi ddod i lawr i Ben-y-garn ar ôl y rhyfel. Buodd hi farw llynedd ac mae ei llwch hi wedi ei gladdu ym mynwent y Garn.

Roen ni'n gwneud *guard duty* yn Tiree. Down i ddim wedi cael llawer o hyfforddiant, ond roedd gwn gyda fi, ac roedd rhywun

arall ar *duty* gyda fi wastad. Rown ni'n gweithio bedair noswaith a chael dwy noson ffwrdd. Roedden nhw'n ofni yn Tiree y byddai Rwsia'n dod drosodd. Roedd llawer o gychod dieithr o sifiliaid yn dod i mewn lle rown i – Norwyaid mwy na thebyg, ond efallai bod 'na Rwsiaid yn eu plith nhw hefyd. Roedden nhw'n cael eu harestio'n syth. Dwi ddim yn gwybod beth oedd yn digwydd iddyn nhw wedyn. Doedden ni'n cael gwybod dim.

Weithiau fe fydden ni'n mynd i roi help llaw i rai o'r ffermwyr. Ar un achlysur fe ges i fy ngwahodd i de at deulu'r ffermwr rown i wedi bod yn ei helpu. A dyna beth ges i oedd *rock cakes* caled fel y graig, *water-cress* a glasiaid o ddŵr. Rhaid bod bwyd yn brin arnyn nhw, neu eu bod nhw'n fên gythreulig! Tipyn o'r ddau, glei.

Pysgod oedd prif fwyd pobl yr ynys. Roedden nhw'n rhoi'r pysgod ar y ffrimpan i'w ffrio heb eu hagor nhw. Wedyn, ar ôl eu ffrio nhw, roedden nhw'n eu hagor nhw a thaflu'r perfedd. Roedden nhw'n bobl galed a thlawd iawn. Roedd y plant yn mynd i'r ysgol yn droednoeth, hyd yn oed yn y gaeaf.

Ar ôl gadael Tiree es i yn ôl i Turnhouse am fis – a dyna lle cwrddais i â Mary, ddechrau 1943. Roedd hi yn y WAAF. Roedden ni ar yr un stesion ar y pryd ac yn gweld ein gilydd bob nos. Priodon ni yn 1944 yn Tealing, rhyw bedair neu bum milltir i'r gogledd o Dundee. Dyna lle roedd Mary'n byw, yn Kirkton Farm.

Ond cyn hynny rown i wedi cael transffer i'r Southern Command, a mynd i Gravesend yn swydd Kent, ar aber afon Tafwys. Roedd bomio mawr bob nos yn Gravesend ac roedd rhaid i ni fynd i'r lloches. Fe fydden ni'n cael ein cosbi am beidio: '*confined to camp for seven days for refusing to obey an order*'. *Guard duty* oedd fy ngwaith i'r fan honno.

Ces i fy symud wedyn o Gravesend i Thorney Island ger Chichester a threulio'r penwythnosau rhydd mewn tref fach o'r

enw Emsworth. *Fighter drome* oedd Thorney Island. Dim ond awyrennau ymladd gydag un injan, fel Spitfires, oedd yn codi oddi yno. Roedd dwy injan ar y *Wellington bombers*, a phedair injan ar yr *Halifax*. Gwelais i fil o *bombers* mawr yn yr awyr gyda'i gilydd un tro, i gyd yn hedfan i'r Almaen. Landiodd *fighter* o'r Almaen yn Thorney Island pan own i yno. Cafodd y peilot ei arestio'n syth, wrth gwrs.

Fy ngwaith i oedd adeiladu *emergency landing strips* ar gyfer awyrennau oedd eisiau disgyn ac yn methu cyrraedd yn ôl adref am fod y dynion wedi'u dolurio neu waeth. Roedd yr *emergency strips* yn anferth – yn llydanach na'r ffordd fawr yn Bow-Street. Roedden ni, bois Prydain, yn gwneud y cyfan â phicas a rhaw, ond roedd yr Yanks drws nesaf yn defnyddio peiriannau. Roedd lot o ddieter a chenfigen rhyngon ni, cofiwch.

Roedden ni'n defnyddio *quick hardener* i wneud i'r concrit galedu'n gyflym – mewn tuag wyth awr. Ond weithiau byddai *bomber* mewn traferthion yn cyrraedd cyn i'r concrit galedu. Fyddai dim dewis ond gadael iddi ddisgyn ar y strip, a'i gweld yn suddo i'r chwe modfedd o goncrit meddal. Ein gwaith ni oedd mynd i mewn i'r *bombers* ac edrych am fois oedd wedi eu dolurio, wedi cael eu saethu yn yr awyr. Wedyn roedden ni'n mynd â nhw at bobl y Cymorth Cyntaf i'w cludo i'r ysbyty.

Roedd Mary wedi cael ei symud i *fighter station* ym Manston, lle oedd wedi gweld prysurdeb mawr yn ystod y Battle of Britain, a lle buodd Barnes Wallis yn profi ei *bouncing bomb* cyn ymgyrch y Dambusters. Buodd e'n profi'r *bouncing bomb* yn Sgotland hefyd. Y broblem oedd eu bod nhw'n methu ei gael e i fownsio'n iawn. Yn y diwedd fe ddefnyddion nhw dorts. Roedden nhw'n hedfan yn isel a phan welen nhw'r golau ar y dŵr roen nhw'n gwybod eu bod nhw ar yr uchder iawn i'r bom weithio. Collodd Prydain nifer fawr o ddynion a *bombers* yn y cyrch ar argaeau'r Almaen.

Roedd llawer o ddyddiau segur yn Thorney Island hefyd, a chan fod cymaint o'r dynion oedd yn hedfan yn cael eu lladd roedd



*Trefor a Mary yn Dundee*

prinder *aircrew*. Wedyn roedden nhw'n dod o gwmpas i ofyn am wirfoddolwyr i fod yn *aircrew*. Doen ni ddim wedi cael dim hyfforddiant ar gyfer hynny, ond fe gytunon ni i fynd i fyny. Tynnu lluniau oedd ein gwaith ni yn yr awyr. Ystyr hynny oedd ein bod ni yn hedfan hyd at ryw filltir oddi ar arfordir Ffrainc, yn rhoi'r camera i weithio – doedd dim angen i ni wneud dim iddo – ac yna'n hedfan yn ôl ac ymlaen, i fyny ac i lawr, ar hyd sribyn o ryw dair milltir, yn tynnu lluniau'n ddi-baid.

Un diwrnod deallon ni fod parasiwt gan y peilot i'w helpu i ddianc petai rhywbeth yn digwydd, ond doedd dim byd ar ein cyfer ni. Aethon ni ddim i fyny wedyn.

Ces i fy *ne-mob* ym mis Mehefin 1946, a chael cit o ddillad sifilian cyffredin ar ôl treulio pedair blynedd yn yr iwniform las.

Cyn pen bythefnos rown i yn ôl yn gweithio yn y Dolau.



Rhannodd Nest Davies, Marjorie Hughes,  
Eirlys Owen a Morfudd Rhys Clark eu hatgofion  
yng nghyfarfod y Gymdeithas Lenyddol  
mis Tachwedd 2006.

Rhannodd Trefor Lewis ei atgofion  
mewn sgwrs â Llinos Dafis.

Golygwyd y testun gan Llinos Dafis  
Dyluniwyd gan Marian Beech Hughes

**Pwyllgor y Gymdeithas Lenyddol**

**2006–2007**

Llywydd: Llinos Dafis

Is-lywydd: Gaenor Hall

Ysgrifennydd: Mary Thomas

Trysorydd: Bet Evans

Elina Davies

Shân Hayward

Dewi Hughes

Erddyn James

Vernon Jones

Margaret Rees

Janet Roberts